

12. A Hyn Fydd yr Arwydd

CYMERIADAU

- TOMOS – bugail
- REUBEN – bugail
- IOAN* – mab Reuben ac Elisabeth
- MAIR
- ANGEL
- CASPAR
- PLENTYN 1
- PLENTYN 3
- LLU O ANGYLION
- HANNA – gwraig Tomos
- ELISABETH – gwraig Reuben
- LLETYWR
- JOSEFF
- MELCHIOR
- BALTHASAR
- PLENTYN 2
- PLENTYN 4

**Mae gofyn am gymeriad sy'n gallu chwarae offeryn, e.e. fflwt, gitâr, recorder.*

GOLYGFA 1

CAROL: 'O! Dawel Ddinas Bethlehem', *Caneuon Ffydd*.

Cartref TOMOS ym Methlehem. Mae HANNA'n eistedd ar stôl fechan yn gwnïo. Daw TOMOS i mewn a golwg eitha diflas arno. Mae'n siarad efo fo'i hun ac mae HANNA'n edrych arno mewn syndod.

TOMOS: Tydw i ddim yn gwybod be sy'n digwydd ym Methlehem, ond dwi wedi cael llond bol ar gael fy ngwthio o gwmpas. Mae'r strydoedd yn llawn o bobl fel petaen nhw ar fin mynd o'u co!

HANNA: Wel, tydw i ddim yn synnu, druan ohonyn nhw. Maen nhw wedi anghofio bod yr Ymerawdwr Rhufeinig am gynnal cyfrifiad drwy'r wlad. Rydan ni wedi clywed digon amdano beth bynnag!

TOMOS: O, doeddwn i'n cofio dim am hynny. Dwi'n siŵr bod rhai ohonyn nhw wedi dod yma o bell ac fe fyddan nhw'n lwcus iawn os lwyddan nhw i gael lle mewn llety.

HANNA: Goelia i. Mae'n siŵr ei bod hi'n annifyr iawn cyrraedd tref ddieithr a methu â chael unman i aros yno!

- TOMOS: Be arall elli di ddisgwyl mewn gwlad sydd dan fawd Rhufain? Fydd 'na ddim ffyniant nes i ni gael gwared arnyn nhw.
- HANNA: [*Yn ofnus*] Paid â siarad mor uchel! Wyddost ti ddim pwy sy'n gwranddo. Wrth gwrs, rwyt ti'n iawn, ond fe ddaw'r Meseia rhyw ddydd ac wedyn fe fyddwn ni'n rhydd.
- TOMOS: Rydw i wedi clywed hynny ers pan oeddwn i'n fachgen bach ond tydw i ddim wedi gweld arlliw ohono eto. Dim ond hen fân siarad yr offeiriad ydy hynny, rhywbeth i gadw'r bobl yn dawel.
- HANNA: Na, ddylet ti ddim credu hynny, Tomos! Fe ddaw ryw ddiwrnod. Mae rhai pobl sy'n glyfrach na fi'n darogan y bydd y Meseia'n dod yma i Fethlehem. O! Fe fyddai hynny'n fendigedig. Fedri di ei ddychmygu'n dod i'r dref yn frenin ar gefn ceffyl rhyfel cryf?
- TOMOS: [*Yn chwerthin*] Wel, dwi'n gobeithio na fydd o'n dod heddiw – chaiff o ddim lle i roi ei ben i lawr os ydy'r holl bobl ddieithr yma'n chwilio am lety hefyd. Beth bynnag wela i mohono, gan mod i'n gweithio yn ystod y nos. Siawns bach iawn sydd iddo fo ddod i fyny i'r bryniau i ganol y defaid!
- HANNA: [*Yn ochneidio*] Faswn i'n hoffi petai gen ti fwy o ffydd!
- TOMOS: Ofergoledd dwi'n ei alw fo. Dwi'n credu'r hyn dwi'n ei weld gyda fy llygaid fy hun, ac yn ei glywed efo fy nghlustia. Alla i ddim aros i siarad yma drwy'r dydd. Dwi'n mynd i gartref Reuben.
- HANNA: Fe ddo i efo ti. Rydw i eisiau gweld Elisabeth. Pwy arall sy'n gofalu am y defaid heblaw am Reuben a chdi?
- TOMOS: Dim ond Ioan, mab Reuben.
- HANNA: Mae o'n fachgen ffeind, ychydig yn swil efallai.
- TOMOS: Mae o'n rhy dawel ac mae ganddo galon feddal, ond dwi'n ei hoffi hefyd. Mae o'n un da iawn efo'r fflwiwt. Fe fydd o'n ein difyrru ni am oriau weithiau wrth i ni wylio'r defaid ym mherfeddion nos!
- HANNA: Well i ni fynd. Fe fydd hi'n gwawrio cyn hir.
- CAROL: 'Ganwyd Crist ym Methlehem', *Clychau'r Nadolig*.
- [*Llety mewn stryd ym Methlehem. Mae torfeydd o bobl yn rhuthro yma ac acw. Daw HANNA ac ELISABETH i mewn; maen nhw'n aros am funud*]
- HANNA: Mae hi'n brysur iawn yma heddiw, Elisabeth.
- ELISABETH: Mae'n ofnadwy o brysur a deud y gwir. Dwi'n falch 'mod i'n byw yma; does dim angen i mi ruthro o gwmpas.

HANNA: Bydd y dynion wedi cyrraedd y bryniau erbyn hyn. Tydw i ddim yn poeni amdany'n nhw fel arfer ond dwi'n teimlo'n anesmwyth iawn heno 'ma.

ELISABETH: O! Fe fyddan nhw'n iawn. Mae hi braidd yn beryglus, ond maen nhw wedi hen arfer bellach.

[Maen nhw'n cerdded i gyfeiriad y llety, yn dal i sgwrsio. Mae pobl yn cerdded heibio iddynt, yn ôl ac ymlaen. Mae'r LLETYWR yn pwyso yn erbyn y wal â'i freichiau wedi'u plethu. Daw MAIR a JOSEFF i mewn yn edrych yn lluddedig. Maen nhw'n cerdded i gyfeiriad y llety]

JOSEFF: Syr, ai chi ydy'r lletywr?

LLETYWR: *[Yn dal i bwyso ar y wal]* Ie, pam, be sydd?

JOSEFF: Mae angen cymorth ar fy ngwraig i. Mae'n rhaid i ni gael lle i orffwys.

LLETYWR: *[Yn chwervthin yn uchel]* Rhaid i chi! Yr un rhaid sydd i chi'ch dau ag i ddegau o rai eraill, ond chewch chi ddim lle yma i orffwys, dim heno beth bynnag.

MAIR: *[Bron â chrio]* O! Fedrwch chi chwilio am rywle i ni os gwelwch yn dda?

LLETYWR: *[Wedi'i gythruddo]* Rydw i wedi deud wrth eich gŵr unwaith – does gen i ddim lle i chi. Lletywr ydw i a fedra i ddim gneud gwyrthiau! Ydach chi wedi clywed am y cyfrifiad?

JOSEFF: Do, wrth gwrs, dyna pam yr ydan ni yma.

LLETYWR: Trueni na fuasech wedi dod yn gynt. Peidiwch â gweld bai arna i! *[Mae'n troi ei gefn arnynt]*

[Mae MAIR a JOSEFF yn edrych ar ei gilydd yn ddigalon. Bu HANNA ac ELISABETH yn gwrando ar y sgwrs]

ELISABETH: O diar! Dyna ofnadwy.

HANNA: Mae'n gas gen i'r hen ddyn 'na! Mae o'n oeraidd a chreulon.

ELISABETH: Wel, does gen i mo'i ofn o, ac rydw i newydd gael syniad da. Aros amdana i yma, Hanna.

[Mae'n mynd at y LLETYWR] Wel wir, dwi'n siŵr y gallwch chi ddod o hyd i le i'r ferch ifanc 'ma orffwys.

LLETYWR: *[Yn gas]* Fedra i ddim dod o hyd i le i unrhyw un, ddim hyd yn oed i Awgwstws Cesar ei hun. Be sydd gan hyn i'w wneud â chi beth bynnag? Ewch adref i baratoi swper i'ch gŵr!

ELISABETH: *[Yn dawel a phwyllog]* Mae fy ngŵr yn gweithio yn ystod y nos, ac mae'n ddyletswydd arna i i helpu rhywun sydd mewn argyfwng. Rhag cywilydd i chi! Dwi'n gwybod yn iawn fod gennych chi stabl yng nghefn y llety – pam na chaiff y ddau yma ddefnyddio'r fan honno?

[*Yn troi at MAIR*] Tyrd fy ngeneth i. Fe ddangosa i ble gei di orffwyso. Tydi o fawr o le ond o leiaf gei di le i roi dy ben i lawr yn dawel ac o olwg yr holl bobl 'ma. Oes gen ti awr i'w sbario Hanna? Fe wnawn ni'r stabl 'ma mor gyfforddus ac y gallwn ni.

HANNA: Oes, wrth gwrs, fe fydda i'n falch o helpu.

CAROL: 'Dawel Nos, Sanctaidd yw'r Nos', *Clychau'r Nadolig*.

GOLYGFA 2

Ar y ffordd sy'n arwain o Fethlehem tua'r bryniau. Mae'n tywyllu. Daw'r BUGEILIAID i mewn yn dawel.

REUBEN: 'Sgwn i a gawn ni noson dawel? Gobeithio wir!

TOMOS: Fydd hi'n dawelach nag yn y dref yn ystod y dydd heddiw. Mae'r dieithriaid fel morgrug yn gwau trwy'i gilydd!

IOAN: Ydyn. Maen nhw wedi dod ar gyfer y cyfrifiad. Mae pob llety'n llawn a rhai yn dal i gerdded y strydoedd heb le i aros.

REUBEN: Mae'r hen fyd 'ma'n lle digon trist, ond allwn ni wneud fawr o ddim i wella hynny. Un cysur ydy nad ydy'r bryniau 'ma'n newid, Rhufeiniaid neu beidio!

TOMOS: Mae hynny'n wir! Dwi'n gwybod am bob twll a chornel sydd ar y bryniau 'ma. Weli di'r creigiau acw, Ioan? Dyna i ti guddfan dda i'r siacal. Maen nhw'n cysgu yno yn ystod y dydd ac yn mentro allan gefn nos i chwilio am damaid blasus.

IOAN: Ydan ni am aros yma felly?

REUBEN: Waeth i ni wneud hynny ddim. Rydyn ni'n ddigon uchel i weld be sy'n mynd ymlaen ac mae'n noson glir iawn.

IOAN: [*Yn estyn ei ffliwt*] Fe chwaraea i diwn fach ar y ffliwt; efallai y bydd y sŵn yn ddigon i gadw'r siacal draw!

[*Mae'n chwarae'r ffliwt*]

REUBEN: Dyna diwn hwyliog, Ioan. Llawer gwell na'r pethau digalon 'na 'dan ni'n eu clywed gen ti weithiau.

IOAN: A daw rhai ohonyn nhw o'r hen broffwydoliaethau – rheiny sy'n deud bod y Meseia am ddod.

TOMOS: O, paid â siarad am y Meseia! Dwi 'di cael llond bol ar y stori yna. Fuodd Hanna yn fy mwydro i drwy'r bore. Mae hi'n credu y bydd o'n marchogaeth i Fethlehem a chael gwared â'r Rhufeiniaid. Mae'r holl beth yn wrthun.

- REUBEN: Wel, paid â gofyn i mi Tomos, defaid ydy fy niddordeb i. Tydw i ddim yn offeiriad 'sdi!
- IOAN: Ond mae'n rhaid i ti gredu yn Nuw. Weli di ddim synnwyr mewn pethau os nad wyt ti'n credu yn Nuw. Tydi pethau ddim yn syrthio i'w lle ar ddamwain. Mae popeth wedi'i drefnu o'r mynyddoedd mwyaf i'r seren ddisgleiriaf a welwn heno yn y ffurfafen! Wn i fawr ddim am y Meseia ond rydw i'n credu yn Nuw. Mae iddo fawredd a phŵer diddiwedd.
- TOMOS: [*Dan rwgnach*] Efallai fachgen, efallai, ond dim ond yr hyn a wela i gyda fy llygaid fy hun dwi'n ei gredu!
- [*Eistedda'r BUGEILIAID mewn tawelwch, am funud, yna mae REUBEN yn codi ac yn edrych o'i gwmpas*]
- TOMOS: [*Yn sibrwd*] Welsoch chi rywbeth yn symud?
- REUBEN: Naddo, ond mae 'na olau yn fan acw. [*Mae'n pwyntio i rywle, oddi ar y llwyfan, ac mae'r lleill yn edrych hefyd*]
- IOAN: Oes wir, mae 'na olau! Mae'n o'n rhyw fath o dywynnu'n gynnes fel petai'r wawr ar dorri. Mae o'n olau niwlog, rhyfedd yn tydi?
- TOMOS: Tydi hi ddim yn gwawrio – mae'r sêr yn yr awyr o hyd. Wn i ddim be ydy o ond mae'r golau'n cryfhau.
- IOAN: [*Yn sibrwd*] Be ydy o?
- [*Yr ANGEL i ymddangos yn ara deg. Mae'r BUGEILIAID wedi dychryn yn llwyr. Maen nhw'n penlinio a chuddio eu hwyneb*]
- ANGEL: Pam ydach chi'n cuddio? Pam mae cymaint o ofn arnoch? Negesydd Duw ydw i. Rydw i wedi dod â newyddion da a fydd o ddiddordeb mawr i'r holl fyd.
- Heno, ganwyd Gwardwr y Byd, i lawr yn Ninas Dafydd. Hyn fydd yr arwydd i chi, fe ddowch o hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn cadachau ac yn gorwedd yn y preseb. Dilynwch fy nghyfarwyddiadau ac fe welwch chi'r cyfan eich hunain.
- [*Daw LLUR ANGYLION i mewn gan amgylchynu'r ANGEL. Mae'r BUGEILIAID yn dal i benlinio yn ystod y canu ond maen nhw'n codi wrth i'r ANGYLION adael y llwyfan. Maen nhw'n edrych ar ei gilydd mewn syndod*]
- TOMOS: Fedra i ddim credu'r ffasiwn beth! Mae'n hollol amhosib!
- REUBEN: O, mae'n wir, welaist ti'r un peth â ninnau! Daeth yr angel i'n gweld ni, yma ar ochr y bryniau ym mherfeddion nos.
- IOAN: Roedd hyn yn fendigedig, hyd yn oed os oedd o'n frawychus!!

- TOMOS: Ond be ydan ni am ei wneud am y peth? Ein gwaith ni ydy gofalu am y defaid, fedrwn ni ddim rhedeg i lawr i Fethlehem rŵan.
- REUBEN: Wela i ddim rheswm pam. Fe ddeudodd yr angel wrthon ni am fynd yno.
- IOAN: Wrth gwrs ein bod ni am fynd, cyn gynted ag y gallwn. Be oedd y neges? “Hyn fydd yr arwydd i chi, fe ddowch o hyd i’r un bychan wedi’i rwymo mewn cadachau ac yn gorwedd yn y preseb.”
- TOMOS: A ble mae’r preseb yma? Rhyw ffwlbri ydy hyn dwi’n siŵr! Y Meseia yn y preseb? Roedd Hanna’n deud y byddai’n marchogaeth i’r dref, ar gefn ceffyl rhyfel.
- REUBEN: Ond tydi o ddim wedi gneud hynny nac ydy? Dwi’n gwybod lle mae’r preseb – yng nghefn un o’r lletyau ym Methlehem, ond cofiwch, mae o’n lle tywyll a budr iawn.
- IOAN: O, dowch yn eich blaenau! Rydan ni’n gwastraffu amser. Dowch i ni chwilio amdano fo. [*Maen nhw’n mynd allan yn frysiog*]
- CAROL: ‘Pa Mor Bell yw Bethlehem Dref’, *Clychau’r Nadolig*.

GOLYGFA 3

Ar y ffordd i Fethlehem. Mae’r BUGEILIAID yn rhuthro i lawr ochr y bryn.

- TOMOS: Dydan ni ddim yn gwybod lle i chwilio. Mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd, coeliwch chi fi!
- IOAN: Paid â phoeni, fe ddown ni o hyd iddo.
- REUBEN: Arhoswch funud! Dwi’n clywed rhywbeth. Mae rhywun arall o gwmpas y lle, mae’n well i ni fod yn ofalus.
- [*Maen nhw’n sefyll yn llonydd ac yn gwrando’n astud. Daw MELCHIOR, CASPAR a BALTHASAR i mewn – mae’r tri yn aros wrth weld y BUGEILIAID*]
- IOAN: [*Yn sibrawd*] Dieithriaid! Rhai cyfoethog hefyd!
- TOMOS: Edrychwch ar y gemau!
- REUBEN: Cenedl ddynion ydyn nhw. Tybed i ble maen nhw’n mynd?
- IOAN: Fe ofynna i iddyn nhw. Dwi’n siŵr na wnân nhw niwed i ni.
- [*Mae IOAN yn camu ymlaen a chyfarch y GWŶR DOETH*]

Tangnefedd a fo gyda chi! Mae’n hwyr iawn i deithio ac mae ’na lawer o ladron ar y bryniau. Ydach chi ar goll?

- MELCHIOR: Peidiwch â phoeni amdanon ni, ffrindiau. Does arnon ni ddim ofn, ac yn wir i chi, dydan ni ddim ar goll.
- CASPAR: Rydan ni ar y ffordd i Fethlehem i chwilio am frenin y gogoniant. Mae o wedi'i eni yno heno.
- REUBEN: [*Yn awyddus*] Felly, rydach chi wedi gweld yr angel hefyd?
- BALTHASAR: Angel? Dydan ni ddim wedi gweld yr un enaid byw ers i ni adael Jerwsalem. Seren sydd wedi ein harwain ni yma o'n cartrefi yn y dwyrain.
- CASPAR: Rydan ni wedi ei dilyn ar hyd y ffordd, ac mae hi wedi aros draw ym Methlehem.
- TOMOS: Mae'r baban wedi'i rwymo mewn cadachau ac yn gorwedd mewn preseb – dyna'r cyfan wyddon ni.
- MELCHIOR: Yna, gadewch i ni fynd gyda'n gilydd i'w addoli, Iddewon a chenedl ddynion, y tlawd a'r cyfoethog. Oherwydd mae o'n Arglwydd arnon ni gyd.
- [*Maen nhw'n mynd allan*]
- CAROL: 'I Orwedd Mewn Preseb', *Clychau'r Nadolig*.
- [*Daw'r BUGEILIAID a'r GWŶR DOETH at y stabl. Maen nhw'n aros am funud i fyfyrrio*]
- CASPAR: Dyma'r lle mae'n siŵr! 'Drychwch ar ddisgleirdeb y seren sydd uwch ein pennau. [*Mae'n pwyntio at y seren*]
- REUBEN: Y stabl 'na sydd y tu ôl i'r llety ar ffordd Nasareth, hen le oer a budr. Tydi o ddim ffit i fabi, heb sôn am y Meseia!
- BALTHASAR: [*Yn dawel*] Mae o yma yn rhywle, does dim dwywaith am hynny.
- IOAN: Pam ydan ni'n aros? Dowch i mewn!
- [*Maen nhw'n mynd i mewn i'r stabl. Mae MAIR yn eistedd wrth y preseb a JOSEFF wrth ei hochr. Mae HANNA ac ELISABETH yno hefyd*]
- HANNA: Tomos, be wyt ti'n neud yma? Be sydd wedi digwydd i'r defaid?
- TOMOS: Does dim byd yn bod arnyn nhw – maen nhw'n ddiogel ar ochr y bryn. Fe gawson ni weledigaeth – dyma ni'n gweld llu o angylion ac fe ddywedon nhw wrthyn ni am ddod i addoli'r Meseia yma yn y stabl ddi-nod. Ddaeth o ddim ar gefn ei geffyl rhyfel Hanna, ond fel baban bach wedi ei rwymo mewn cadachau.
- ELISABETH: Ydach chi'n deud mai baban bach tlws Mair ydy'r Meseia? Daeth y ddwy ohonon ni i mewn i helpu – doedd neb yn fodlon rhoi lle iddyn nhw aros.
- JOSEFF: Roeddech chi'n garedig iawn.

- MAIR: Rydan ni'n gwybod mai ein baban ni ydy'r Meseia. Roedden ni'n meddwl na fysech chi'n ein credu ni petaen ni wedi deud hynny ymlaen llaw.
- REUBEN: A dyma'r tri dieithryn – y gwŷr doeth sydd wedi dilyn y seren er mwyn dod o hyd iddo.
- MELCHIOR: Daethon ni o'r dwyrain, er mwyn dod i'w addoli a dod a'n hanrhegion.
[Mae'n camu ymlaen a dal ei anrheg i fyny]
Aur i frenin y brenhinoedd.
[Mae'n rhoi'r blwch wrth ymyl y preseb ac mae CASPAR yn camu ymlaen gan ddangos ei anrheg ef]
- CASPAR: Thus i fab Duw.
[Mae'n rhoi'r blwch wrth ymyl y preseb – mae BALTHASAR yn camu ymlaen]
- BALTHASAR: Myrr i Waredwr y Byd.
[Mae BALTHASAR yn camu'n ôl a daw'r plant i mewn fesul un. Maen nhw'n aros wrth y drws]
- PLENTYN 1: Os gwelwch yn dda Mair – gawn ni weld eich baban?
- PLENTYN 2: Wnawn ni ddim sŵn – wir yr!
- MAIR: Wrth gwrs fe gewch ei weld o, dewch ymlaen.
[Mae'r plant yn ymgynnull o gwmpas y preseb er mwyn cael golwg]
- PLENTYN 3: O! Dyna drueni. Does gynnnon ni ddim anrheg iddo!
- PLENTYN 4: Be wnawn ni?
- IOAN: Mae o'n deffro rŵan – fe gewch chi ganu iddo fo. Fe chwaraea i'r fflwiwt i chi.
[Mae'r plant yn dawnsio'n dawel o gwmpas y preseb ac yn canu 'Iesu Faban']
- ELISABETH: Mae hi 'di bod yn noson ryfedd, brysur iawn. Bydd pethau wedi dod yn ôl i drefn erbyn fory. Popeth fel yr oedd hi.
- BALTHASAR: Fydd dim byd yr un fath ar ôl heno! Daeth Duw atom. Bydd holl genhedloedd y byd yn cofio am heno. Byddan nhw'n cofio am yr un bach yma yn y preseb. Bydd rhai, dwi'n siŵr, yn ei adael allan yn yr oerni – ond bydd eraill yn ei dderbyn a'i ddilyn yn eiddgar. Dowch, penliniwch ac fe addolwn ef.
[Mae pawb yn penlinio]
- CAROL: 'Ganwyd Iesu', *Clychau'r Nadolig*.

DIWEDD